

Datganiad newyddion

Dyddiad: Dydd Iau, 30 Mawrth 2017

Teitl: Partneriaethau prifysgol a busnes yn rhoi pŵer i economi Cymru

Dathlodd arweinwyr busnes, entrepreneuriaid, gwleidyddion a phrif academyddion Cymru lansiad casgliad newydd o astudiaethau achos yr wythnos hon, yn tynnu sylw at werth gweithgarwch ymchwil a datblygu yn ein prifysgolion i economi Cymru.

Innovation Nation / Torri Tir Newydd yw'r casgliad cynhwysfawr cyntaf i arddangos cyfraniad prifysgolion Cymru y tu allan i fyd academia.



Daeth mwy na 100 o bobl i'r derbyniad yn y Senedd ym Mae Caerdydd, a agorwyd gan y **Gweinidog Sgiliau a Gwyddoniaeth, Julie James**. Roedd arddangoswyr o brifysgolion wrth law hefyd i gynnig rhagor o wybodaeth am eu cydweithredu â busnesau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol.

Dywedodd y Gweinidog ar gyfer Sgiliau a Gwyddoniaeth, Julie James: "Rydw i'n falch o gael hybu'r astudiaethau achos rhagorol yma sy'n dangos y safon uchel o ymchwil a datblygu a gefnogir gan Lywodraeth Cymru sydd ar droed mewn prifysgolion a busnesau yng Nghymru.

“Mae’r astudiaethau achos yn dangos esiamplau o safon uchel o ddiwydiannau enwog yn rhyngwladol yn gweithio gyda gallu ymchwil o safon byd, ac yn dangos hefyd pam mae gan Gymru enw da cynyddol fel lleoliad o ddewis ar gyfer arloesi, creadigrwydd a thechnoleg. Gobeithio y byddant yn ysbrydoli mwy o fusnesau ym maes gwyddoniaeth, peirianeg a thechnoleg i ddod i Gymru.”

Siaradodd **Drew Nelson, Llywydd a Phrif Weithredwr IQE**, arweinydd byd-eang mewn dylunio a gweithgynhyrchu cynhyrchion waffer lled-ddargludyddion cyfansawdd uwch sydd wedi’i leoli yng Nghaerdydd, yn y digwyddiad. Disgrifiodd bartneriaeth ffyniannus ei gwmni â Phrifysgol Caerdydd a sut mae wedi cael hwb pellach gan benderfyniad Llywodraeth y DU i leoli Catapwl’t Cymwysiadau Lled-ddargludyddion Cyfansawdd gwerth £50m yn Ne Ddwyrain Cymru.



(chwith i’r dde:: Sasha Davies, David Allen, Julie James, Rob Humphreys, Drew Nelson)

Dywedodd **Sasha Davies, Pennaeth Datblygiad Strategol Wylfa Newydd**, wrth bawb a oedd yn bresennol sut mae Prifysgol Bangor a Phŵer Niwclear Horizon yn cydweithio i baratoi graddedigion ar gyfer gwaith yn y sector niwclear.

“Mae ein cytundeb ni gyda Phrifysgol Bangor yn hybu ymhellach ein hymrwymiad parhaus i gefnogi hyfforddiant a datblygiad sgiliau ledled Gogledd Cymru, gan greu cyfleoedd gyrfa tymor hir ar gyfer pobl ifanc y rhanbarth. Rydyn ni’n edrych ymlaen at weithio gyda’r Brifysgol wrth i brosiect Wylfa Newydd symud ymlaen, gan ddefnyddio’r cyfleusterau ymchwil a datblygu o’r safon uchaf a’r arbenigedd mae wedi’u datblygu dros nifer o flynyddoedd.”

I gloi, dywedodd David Allen, Cadeirydd CCAUC:

“Drwy gyfrwng eu gweithgareddau ymchwil a datblygu a hyfforddi eang, mae ein prifysgolion ni’n cynnig gwir fantais i economi Cymru. Dim ond sampl fechan yw’r astudiaethau achos hyn, ond maent yn darparu gwybodaeth am sut mae ein prifysgolion ni’n gweithio’n agos â’u partneriaid yn y sectorau preifat, cyhoeddus a gwirfoddol er mwyn gwneud gwahaniaeth i’n bywydau ni i gyd.”

Mae’r adroddiad llawn ar gael yn www.hefcw.ac.uk - Innovation Nation / Torri Tir Newydd

Diwedd

Cyswllt:

CCAUC: Dale Hall, Ysgrifennydd y Cyngor, 029 2085 9665 dale.hall@hefcw.ac.uk

Nodiadau

Trefnwyd y derbyniad yn y Senedd gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) ac fe'i noddwyd ar y cyd gan Ysgrifennydd y Cabinet ar gyfer Addysg ac Ysgrifennydd y Cabinet ar gyfer yr Economi a Seilwaith.

Mae CCAUC wedi cyhoeddi'r casgliad newydd sbon hwn o astudiaethau achos, ***Innovation Nation / Torri Tir Newydd***, i dynnu sylw at werth gweithgarwch arloesi ein prifysgolion i economi Cymru.

Cyflwynir yr astudiaethau achos o dan bedair thema:

1. Creu / diogelu swyddi
2. Denu buddsoddiad
3. Sgiliau a dysgu seiliedig ar waith
4. Prosiectau cydweithredol

Ynglŷn â CCAUC

Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) yw'r corff cyhoeddus sy'n eistedd rhwng prifysgolion a Llywodraeth Cymru. Rydym yn rheoleiddio lefelau ffioedd mewn darparwyr addysg uwch (AU), yn sicrhau bod fframwaith yn ei le ar gyfer asesu ansawdd addysg uwch ac yn craffu ar berfformiad prifysgolion. Rydym yn dosbarthu adnoddau ar gyfer addysgu ac ymchwil mewn addysg uwch, ac yn helpu Llywodraeth Cymru i gyflawni ei blaenoriaethau ar gyfer addysg uwch er budd cymdeithas yn gyffredinol a'r economi.